

## Tom Jones yn cadarnhau perfformiad Unigryw yn Arena Digwyddiadau Y Rhyl.

Bydd yr eicon Cymraeg a'r trysor Cenedlaethol Syr Tom Jones yn chwarae mewn cyngerdd Awyr Agored unigryw arbennig yn yr Arena Ddigwyddiadau yn Y Rhyl, nos Fercher, Medi 1af, 2021. Mae'r Sioe yn ddyddiad ychwanegol i Ogledd Cymru gyda sioeau eraill sydd wedi eu hail-drefnu ar hyd y Deyrnas Unedig.

Bydd tocynnau yn mynd ar werth Dydd Gwener, Ebrill 16eg, am 10.00yb ac ar gael gan [ticketmaster.co.uk](http://ticketmaster.co.uk) neu [Rhylpavilion.co.uk](http://Rhylpavilion.co.uk).

Mae Tom yn 'tour de force' yn y byd cerddoriaeth gyda gyrfa o dros 5 degawd yn y maes ac wedi ennill edmygedd bobl dros y byd am ei berfformiadau byw. Mae wedi rhyddhau dros 40 albwm, wedi cael dros 100 miliwn o werthiant recordiau ac wedi cael 36 'uk top 40 hits'. Cafodd ei urddo am ei wasanaeth i gerddoriaeth.

Mae newydd gwblhau cyfres arall o'r rhaglen deledu The Voice ar y cyd a Anne Marie, Olly Murs a will.i.am ac mae Syr Tom nawr yn paratoi ar gyfer rhyddhau ei albwm Newydd 'Surrounded by Time' ar Ebrill 23ain.

Dyweddodd Pablo Jancuzr, Cyfarwyddwr Orchard Live:

*Pan ddaethom a Tom i Fae Colwyn yn 2015, fe gafodd pawb amser mor dda, roeddem yn gwybod bod rhaid i ni ddod a fo yn ol i Ogledd Cymru. Mae dod a eicon artistig i'r dref yn bendant yn golygu y bydd hi'n noson i'w chofio.*

Dyweddodd Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf, Jamie Groves:

*Rydym yn gyffrous iawn i groesawu Tom Jones i'r arena ddigwyddiadau yn y Rhyl. Mae'n wych gweld perfformiwr gyda proffil mor uchel yn dod i'r Rhyl. Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn falch iawn o gael gweithio gyda talent byd enwog fel Tom Jones ac yn edrych ymlaen yn fawr i'w berfformiad yn mis Medi. Mae hyn yn esiampl arall o bobl yn dewis dod i'r Rhyl i fuddsoddi a perfformio.*

Bydd tocynnau yn mynd ar werth Dydd Gwener, Ebrill 16eg am 10.00 yb drwy [ticketmaster.co.uk](http://ticketmaster.co.uk) neu [rhylpavilion.co.uk](http://rhylpavilion.co.uk) Am docynnau hygyrch, ffoniwch 01745 330000.

Am fwy o fanylion, cysylltwch a [Connor.Cupples@thinkorchard.com](mailto:Connor.Cupples@thinkorchard.com)